



# Office for Nuclear Regulation (ONR) Site Report for Wylfa

Report for period 1 July – 31 December 2019

## Foreword

This report is issued as part of ONR's commitment to make information about inspection and regulatory activities relating to the above site available to the public. Reports are distributed to members for the Wylfa Site Stakeholder Group (SSG) and are also available on the ONR website (<http://www.onr.org.uk/lrc/>).

Site inspectors from ONR usually attend Wylfa SSG meetings where these reports are presented and will respond to any questions raised there. Any person wishing to inquire about matters covered by this report should contact ONR (<http://www.onr.org.uk/feedback.htm>).

## TABLE OF CONTENTS

1	INSPECTIONS .....	3
2	ROUTINE MATTERS.....	3
3	NON-ROUTINE MATTERS.....	4
4	REGULATORY ACTIVITY .....	5
5	NEWS FROM ONR.....	5
6	CONTACTS.....	6

## 1 INSPECTIONS

### 1.1 Dates of inspection

ONR inspectors attended Wylfa site on the following dates:

- 30<sup>th</sup> July to 1 August 2019
- 27<sup>th</sup> to 28<sup>th</sup> August 2019
- 12<sup>th</sup> September 2019
- 16<sup>th</sup> to 18<sup>th</sup> September 2019
- 24<sup>th</sup> September 2019
- 7<sup>th</sup> to 8<sup>th</sup> October 2019
- 5<sup>th</sup> to 6<sup>th</sup> November 2019

Some of the inspections were carried out with inspectors from the Licensee's internal regulatory organisation.

## 2 ROUTINE MATTERS

### 2.1 Inspections

Inspections are undertaken as part of the process for monitoring compliance with:

- the conditions attached by ONR to the nuclear site licence granted under the Nuclear Installations Act 1965 (NIA65) (as amended);
- the Energy Act 2013
- the Health and Safety at Work Act 1974 (HSWA74); and
- regulations made under HSWA74, for example the Ionising Radiations Regulations 2017 (IRR17) and the Management of Health and Safety at Work Regulations 1999 (MHSWR99).

The inspections entail monitoring licensee's actions on the site in relation to incidents, operations, maintenance, projects, modifications, safety case changes and any other matters that may affect safety. The licensee is required to make and implement adequate arrangements under the conditions attached to the licence in order to ensure legal compliance. Inspections seek to judge both the adequacy of these arrangements and their implementation.

In this period, ONR carried out the following inspections at Wylfa:

- LC 07 Incidents on the site
- LC 11 Emergency Arrangements
- LC 26 Control and supervision of operations

In general, ONR judged the arrangements made and implemented by the site in response to safety requirements to be adequate in the areas inspected. However, where improvements were considered necessary, the licensee made satisfactory commitments to address the issues, and the site inspector will monitor progress during future visits. Where necessary, ONR will take formal regulatory enforcement action to ensure that appropriate remedial measures are implemented to reasonably practicable timescales.

### 2.2 Other work

ONR's site inspector and superintending inspector attended the Magnox Limited Welsh region annual review of safety, security and environment (ARoSSE) held at Trawsfynydd power station. The ARoSSE provides an opportunity for periodic senior level engagement between ONR and the licensee. They are a key means through which ONR achieves its objective of

providing simple and straightforward ways to engage with those we regulate and hear their views; ensuring clear information, guidance and advice is available to help those we regulate meet their responsibilities; ensuring our regulatory approach is transparent; and augment routine regulatory activities such as compliance inspections, permissioning and regulation of projects.

Fuel remained on Wylfa site until the last flask shipment on 18 September 2019. Whilst fuel was on the Wylfa site the Isle of Anglesey county council is required by the Radiation (emergency preparedness and public information) regulations (REPIR) 2001 regulation 10(1) to periodically demonstrate its off-site emergency plan. ONR observed this demonstration exercise and judged that the exercise was an adequate test of the off-site emergency plan.

Since the completion of this off-site exercise and removal of fuel from the site, Wylfa has completed its hazard evaluation and consequence assessment required under REPIR 2019 that came into force on 22<sup>nd</sup> May 2019. The outcome of this assessment was that Wylfa is now outside the scope of REPIR 2019 and that an off-site emergency plan is no longer required.

ONR undertook a planned inspection to judge Wylfa's compliance with the ionising radiation regulations 2017 (IRR17). The purpose of the inspection was to review arrangements for IRR17 at the Wylfa licensed nuclear site. This inspection was conducted by an ONR radiation protection specialist inspector and concluded that Wylfa had achieved an adequate standard of compliance.

ONR undertook a planned inspection to judge Wylfa's compliance with the Regulatory Reform (Fire Safety) Order 2005. The purpose of the inspection was to review the management of fire safety; and the practical fire safety provision on the licenced nuclear site. This inspection was carried out by an ONR fire protection specialist inspector and concluded that Wylfa had achieved an adequate standard of compliance.

ONR has continued to engage with Magnox Limited's Wylfa senior leadership team to discuss Wylfa's "contingency arrangements" following removal of 24/7 operational shifts at the Wylfa site (planned to be implemented in the first half of 2020). "Contingency arrangements" is the name given to the site's revised emergency arrangements which reflect the reduced nuclear hazard now that fuel has been removed from the site. This engagement follows the issue of licence instrument LI 572 in October 2019 that approved a change to Wylfa's accident and emergency arrangements to be consistent with Magnox Limited sites working in contingency arrangements (but retaining a 24/7 operational shift presence).

### **3 NON-ROUTINE MATTERS**

Licensees are required to have arrangements to respond to non-routine matters and events. ONR inspectors judge the adequacy of the licensee's response, including actions taken to implement any necessary improvements.

There were two incidents of note during this reporting period. The first occurred on 20<sup>th</sup> August 2019 and concerned a perceived fault with Wylfa's Site Event Reporting System (SERS) during a test (SERS is a system used to inform stakeholders of an incident or event at the site). Upon further investigation it was confirmed the issue was actually with the receiving organisations system; and the second occurred on 27<sup>th</sup> October 2019 when a member of Wylfa's emergency response team became ill and was sent home resulting in the scheme being understaffed for a short period until a replacement arrived on site. ONR's site inspector made follow up enquiries for both of these incidents and was satisfied with the site's response.

## 4 REGULATORY ACTIVITY

ONR may issue formal documents to ensure compliance with regulatory requirements. Under nuclear site Licence Conditions (LC - <http://www.onr.org.uk/documents/licence-condition-handbook.pdf>) ONR issues regulatory documents which either permit an activity or require some form of action to be taken. These are collectively termed ‘Licence Instruments’ (LIs). In addition, inspectors may issue Enforcement Notices to secure improvements to safety.

There were two LIs, and no Enforcement Notices issued during the period:

**Table 1**  
**Licence Instruments and Enforcement Notices Issued by ONR during this period**

Date	Type	Ref No	Description
24/10/2019	Licence Instrument	572	Approval granted under licence condition 11 (3) for Wylfa to change its accident and emergency arrangements to be consistent with Magnox sites working in contingency arrangements. This reflects the change in risk and hazard following completion of fuel free verification.
20/12/2019	Licence Instrument	573	Specification issued under licence condition 25(4) for Wylfa to furnish to ONR records of high-activity sealed sources. This implements changes in UK law required by the EU basic safety standards directive.

Reports detailing the above regulatory decisions can be found on the ONR website at <http://www.onr.org.uk/pars/>.

## 5 NEWS FROM ONR

### Enforcement Action

EDF Energy has complied [with two ONR Improvement Notices](#) relating to the way it maintains auxiliary steam systems and instructs staff operating these systems. The Notices were issued in January 2019 following a serious incident at Heysham 1 power station in November 2018, when a valve failed on a steam system resulting in injury to three EDF employees. Further details are available on our [website](#).

### Regulatory updates

In October, our Chief Nuclear Inspector (CNI) Mark Foy published his view on the performance of Great Britain’s nuclear industry during 2018/19. In the first [report](#) of its kind, the review provides an independent, authoritative view of safety, security and safeguards performance across the nuclear industry over the last year. The report is accessible via our website homepage [www.onr.org.uk](http://www.onr.org.uk)

Throughout October we hosted an [Integrated Regulatory Review Service Mission](#) that saw a team of 18 independent experts from across the globe scrutinising the regulation of nuclear and radiological safety across 15 different regulatory bodies. The final report is expected in February/March 2020.

Along with the Environment Agency and Natural Resources Wales (NRW) we have published [new Generic Design Assessment \(GDA\) guidance](#) for Requesting Parties. It reflects the changes seen in the nuclear industry in the decade since GDA was introduced, in particular

the Nuclear Sector Deal and the potential for Small Modular Reactor (SMR) designs to enter GDA in the future. The new guidance also incorporates lessons learnt from previous GDAs.

Together with the Environment Agency, we have also published a [joint annual report](#) on our scrutiny of Radioactive Waste Management's (RWM) work to develop geological disposal. This report summarises our work relating to the geological disposal of radioactive waste.

We have formally concluded the [licence revocation for the Cardiff Nuclear Licensed Site](#) in Wales, thereby de-licensing the site. This follows many years of nuclear site decommissioning and work to clean up the site and is the first time ONR has de-licensed a site completely, although several sites have been de-licensed by ONR's predecessor organisation, the Nuclear Installations Inspectorate.

## Stakeholder engagement

In November, we hosted our second NGO Forum of the year and were delighted to welcome 18 NGO attendees from 14 different organisations. Agenda items included our work at Sellafield, ageing management of reactors and our relationship with the Defence Nuclear Safety Regulator. Presentations and minutes from all our [NGO Forum meetings](#) are made available on our website. If you represent an NGO group and would like to get involved with our NGO Forum, please get in touch with our Communications team ([contact@onr.gov.uk](mailto:contact@onr.gov.uk)) for further details.

For the latest news and updates from ONR visit the website and sign up for our ebulletin (<http://www.onr.org.uk/ebulletin/index.htm>).

## 6 CONTACTS

Office for Nuclear Regulation  
Redgrave Court  
Merton Road  
Bootle  
Merseyside  
L20 7HS  
website: [www.onr.org.uk](http://www.onr.org.uk)  
email: [contact@onr.gsi.gov.uk](mailto:contact@onr.gsi.gov.uk)

This document is issued by the Office for Nuclear Regulation (ONR). For further information about ONR, or to report inconsistencies or inaccuracies in this publication please visit <http://www.onr.org.uk/feedback.htm>.

© Office for Nuclear Regulation, 2020

If you wish to reuse this information visit [www.onr.org.uk/copyright.htm](http://www.onr.org.uk/copyright.htm) for details.  
Published 01/20

*For published documents, the electronic copy on the ONR website remains the most current publicly available version and copying or printing renders this document uncontrolled.*



# Y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR) Adroddiad Safle ar gyfer Wylfa

Adroddiad ar gyfer y cyfnod 1 Gorffennaf – 31 Rhagfyr 2019

## Rhagair

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn rhan o ymrwymiad yr ONR i sicrhau bod gwybodaeth am weithgareddau arolygu a rheoliadol yn ymwneud â'r safle uchod ar gael i'r cyhoedd. Dosberthir adroddiadau i aelodau o Grŵp Rhanddeiliaid Safle (SSG) Wylfa a hefyd maent ar gael ar wefan yr ONR (<http://www.onr.org.uk/lc/>).

Fel arfer bydd arolygwyr safle o'r ONR yn mynd i gyfarfodydd Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa lle mae'r adroddiadau hyn yn cael eu cyflwyno a byddant yn ymateb i unrhyw gwestiynau a godir yno. Dylai unrhyw un sydd eisiau ymholi ynglŷn â materion a drafodir yn yr adroddiad hwn gysylltu â'r ONR (<http://www.onr.org.uk/feedback.htm>).

## TABL CYNWYS

1	AROLYGIADAU.....	3
2	MATERION ARFEROL.....	3
3	MATERION ANARFEROL.....	4
4	GWEITHGAREDD RHEOLEIDDIO.....	5
5	NEWYDDION GAN YR ONR.....	5
6	CYSYLLTIADAU.....	6



## 1 AROLYGIADAU

### 1.1 Dyddiadau arolygu

Mynychodd arolygwyr yr ONR safle Wylfa ar y dyddiadau canlynol:

- 30<sup>ain</sup> Gorffennaf i 1 Awst 2019
- 27<sup>ain</sup> i 28<sup>ain</sup> Awst 2019
- 12<sup>fed</sup> Medi 2019
- 16<sup>eg</sup> i 18<sup>fed</sup> Medi 2019
- 24<sup>ain</sup> Medi 2019
- 7<sup>fed</sup> i 8<sup>fed</sup> Hydref 2019
- 5<sup>ed</sup> i 6<sup>ed</sup> Tachwedd 2019

Cyflawnwyd rhai o'r arolygiadau gydag arolygwyr o sefydliad rheoleiddio mewnol y Trwyddedai.

## 2 MATERION ARFEROL

### 2.1 Arolygiadau

Cynhelir arolygiadau ar y safle fel rhan o'r broses o fonitro cydymffurfiaeth â'r canlynol:

- yr amodau a atodwyd gan yr ONR i'r drwydded safle niwclear a ddyfarnwyd dan y Ddeddf Safleoedd Niwclear 1965 (NIA65) (fel y'i haddaswyd);
- y Ddeddf Ynni 2013
- y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (HSPA74); a
- rheoliadau a wnaed o dan HSPA74, er enghraifft y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017 (IRR17) a'r Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (MHSWR99).

Mae'r arolygiadau yn golygu monitro gweithredoedd y trwyddedai ar y safle mewn perthynas â digwyddiadau, gweithrediadau, cynnal a chadw, prosiectau, addasiadau, newidiadau i'r ddatd diogelwch ac unrhyw faterion eraill a all effeithio ar ddiogelwch. Mae'n ofynnol i'r trwyddedai wneud trefniadau digonol a'u rhoi ar waith o dan yr amodau sydd wedi eu hatodi i'r drwydded er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol. Mae arolygiadau yn ceisio rhoi barn ar ddigonolrwydd y trefniadau hyn a'u gweithrediad.

Yn ystod y cyfnod hwn, cyflawnodd yr ONR yr archwiliadau canlynol yn Wylfa:

- LC 07 Digwyddiadau ar y safle
- LC 11 Trefniadau Argyfwng
- LC 26 Rheolaeth a goruchwyliaeth o weithdrefnau

Yn gyffredinol, barnodd yr ONR bod y trefniadau a wnaed ac a weithredwyd gan y safle mewn ymateb i ofynion diogelwch yn ddigonol yn y meysydd a arolygwyd. Fodd bynnag, pan ystyriwyd bod angen gwelliannau, gwnaeth y trwyddedai ymrwymadau boddhaol i fynd i'r afael â'r materion, a bydd yr arolygydd safle yn monitro cynnydd yn ystod ymweliadau yn y dyfodol. Lle bo angen, bydd yr ONR yn cymryd camau gorfodi rheoliadol ffurfiol i sicrhau y gweithredir mesurau adferol priodol o fewn terfynau amser sy'n rhesymol ymarferol.

### 2.2 Gwaith arall

Mynychodd arolygydd safle ac uwch-arolygydd yr ONR yr adolygiad blynyddol o ddiogelwch, diogeledd a'r amgylchedd (ARoSSE) ar gyfer rhanbarth Cymru Magnox Limited a gynhaliwyd yng ngorsaf bŵer Trawsfynydd. Mae'r ARoSSE yn gyfle ar gyfer ymgysylltu cyfnodol ar lefel uwch rhwng yr ONR a'r trwyddedai. Maent yn fodd allwedd i'r ONR gyflawni ei amcan o

ddarparu dulliau syml a diffwdan o ymgysylltu gyda'r rhai rydym yn eu rheoleiddio ac i glywed eu barn; sicrhau bod gwybodaeth, arweiniad a chynngor clir ar gael i helpu'r rhai rydym yn rheoleiddio i fodloni eu cyfrifoldebau; sicrhau bod ein hymagwedd rheoleiddiol yn dryloyw; ac ychwanegu at weithgareddau rheoleiddio cyffredinol fel archwiliadau cydymffurfiad, caniatâd a rheoleiddio prosiectau.

Roedd tanwydd yn parhau i fod ar safle Wylfa tan y danfoniad fflasg diwethaf ar 18 Medi 2019. Tra bod tanwydd ar safle Wylfa, mae'n ofynnol i gyngor sir Ynys Môn gan y Rheoliadau Ymbelydredd (parodrwydd ar gyfer argyfwng a gwybodaeth gyhoeddus) (REPPPIR) 2001 10(1) i arddangos ei gynllun ar gyfer argyfwng oddi ar y safle yn achlysurol. Arsylwodd yr ONR yr ymarfer arddangosiad hwn a barnu bod yr ymarfer yn brawf digonol o'r cynllun argyfwng oddi ar y safle.

Ers cwblhau'r ymarfer oddi ar y safle hwn a chael gwared ar danwydd o'r safle, mae Wylfa wedi cwblhau ei werthusiad peryglon ac asesiad goblygiadau sy'n ofynnol dan REPPPIR 2019 a ddaeth i rym ar 22<sup>ain</sup> Mai 2019. Canlyniad yr asesiad hwn oedd fod Wylfa nawr tu allan i gwmpas REPPPIR 2019 ac nad oes angen bellach am gynllun argyfwng oddi ar y safle.

Cyflawnodd yr ONR archwiliad a gynlluniwyd i farnu cydymffurfiad Wylfa gyda'r rheoliadau ymbelydriad toneiddio 2017 (IRR17). Diben yr archwiliad oedd i adolygu trefniadau ar gyfer IRR17 ar safle niwclear trwyddedi Wylfa. Cyflawnwyd yr arolygiad hwn gan arolygydd arbenigol amddiffyn ymbelydredd yr ONR gan gasglu fod Wylfa wedi cyflawni safon ddigonol o gydymffurfiad.

Cyflawnodd yr ONR archwiliad a gynlluniwyd i farnu cydymffurfiad Wylfa gyda'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005. Diben yr archwiliad oedd i adolygu rheolaeth diogelwch tân; a'r ddarpariaeth diogelwch tân ymarferol ar y safle niwclear trwyddedig. Cyflawnwyd yr arolygiad hwn gan arolygydd arbenigol amddiffyn tân yr ONR gan gasglu fod Wylfa wedi cyflawni safon ddigonol o gydymffurfiad.

Mae'r ONR wedi parhau i ymgysylltu gydag uwch dîm arweinyddiaeth Wylfa Magnox Limited i drafod "trefniadau wrth gefn" Wylfa yn dilyn diddymu shifftiau gweithredol 24/7 yn yr Wylfa (y bwriedir eu gweithredu yn hanner cyntaf 2020). "Trefniadau wrth gefn" yw'r enw a roddir i drefniadau argyfwng diwygiedig y safle sy'n adlewyrchu'r lleihad mewn perygl niwclear nawr bod tanwydd wedi ei dynnu o'r safle. Mae'r ymgysylltu yma yn dilyn cyhoeddi offeryn trwydded OT 572 yn Hydref 2019 oedd yn cymeradwyo newid i drefniadau damweiniau ac achosion brys Wylfa i fod yn gyson gyda safleoedd Magnox Limited yn gweithio mewn trefniadau wrth gefn (ond gan gadw presenoldeb shifft gweithredol 24/7).

### 3 MATERION ANARFEROL

Mae'n ofynnol i drwyddedai sefydlu trefniadau i ymateb i faterion a digwyddiadau anghyffredin. Mae arolygwyr yr ONR yn barnu digonolrwydd ymateb y trwyddedai, yn cynnwys sut y gweithredwyd i gyflawni unrhyw welliannau angenrheidiol.

Roedd dau ddigwyddiad nodedig yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Digwyddodd y cyntaf ar 20<sup>fed</sup> Awst 2019 ac yn ymwneud â diffyg deongliadol gyda System Adrodd Digwyddiadau Safle Wylfa (SERS) yn ystod prawf (mae SERS yn system a ddefnyddir i hysbysu rhanddeiliaid am ddigwyddiad ar y safle). Yn dilyn ymchwiliad pellach, cadarnhawyd bod y mater yn ymwneud â system y sefydliad derbyn; a digwyddodd yr ail ar 27<sup>ain</sup> Hydref 2019 pan ddaeth aelod o dîm ymateb i argyfwng Wylfa yn wael a'i anfon adref gan achosi diffyg staff ar gyfer y cynllun am gyfnod byr nes i rywun gyrraedd y safle i gymryd ei le. Gwnaeth arolygydd safle'r ONR ymholiadau dilynol ar gyfer y ddau ddigwyddiad ac roedd yn fodlon gydag ymateb y safle.

## 4 GWEITHGAREDD RHEOLEIDDIO

Gall yr ONR gyhoeddi dogfennau ffurfiol i sicrhau y cydymffurfir â gofynion rheoliadol. O dan Amodau Trwyddedu(LC - <http://www.onr.org.uk/documents/licence-condition-handbook.pdf>) safleoedd niwclear, mae'r ONR yn cyhoeddi dogfennau rheoliadol, sydd naill ai'n caniatáu gweithgaredd neu'n mynnu bod camau penodol yn cael eu cymryd. Gelwir y rhain gyda'i gilydd yn Offerynnau Trwydded (OT). Yn ogystal, gall arolygwyr gyhoeddi Hysbysiadau Gorfodi i sicrhau gwelliannau i ddiogelwch.

Cyhoeddwyd dau Offeryn Trwyddedu, a dim Hysbysiadau Gorfodi yn ystod y cyfnod:

**Tabl 1**

**Offerynnau Trwyddedu a Hysbysiadau Gorfodi a Gyhoeddwyd gan yr ONR yn ystod y cyfnod hwn**

Dyddiad	Math	Rhif Cyfeirio	Disgrifiad
24/10/19	Offeryn Trwydded	572	Caniatawyd cymeradwyaeth dan amod trwyddedu 11 (3) i Wylfa newid ei drefniadau damweiniau ac argyfwng i fod yn gyson gyda safleoedd Magnox yn gweithio mewn trefniadau wrth gefn. Mae hyn yn adlewyrchu'r newid mewn risg a pheryglon yn dilyn cwblhau dilysu rhydd o danwydd.
20/12/19	Offeryn Trwydded	573	Cyhoeddi manyleb dan amod trwyddedu 25(4) i Wylfa roddi cofnodion i'r ONR o ffynonellau wedi selio gweithgaredd uchel. Mae hyn yn gweithredu newidiadau yng nghyfraith y Deyrnas Unedig sy'n ofynnol dan gyfarwyddeb safonau diogelwch sylfaenol yr UE.

Gellir dod o hyd i adroddiadau gyda manylion y penderfyniadau rheoliadol uchod ar wefan yr ONR yn <http://www.onr.org.uk/pars/>.

## 5 NEWYDDION GAN YR ONR

### Gweithredu Gorfodol

Mae EDF Energy wedi cydymffurfio [gyda dau Hysbysiad Gwelliant ONR](#) yn ymwneud â sut mae'n cynnal systemau stêm ategol ac yn cyfarwyddo staff sy'n gweithredu'r systemau hyn. Cyhoeddwyd yr hysbysiadau yn Ionawr 2019 yn dilyn digwyddiad difrifol yng ngorsaf bŵer Heysham 1 yn Nhachwedd 2018, pan cafwyd diffyg mewn falf ar system stêm a achosodd anaf i dri o gyflogeion EDF. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar ein [gwefan](#).

### Diweddariadau rheoleiddiol

Yn Hydref, cyhoeddodd ein Prif Arolygydd Niwclear (CNI) Mark Foy ei farn ar berfformiad diwydiant niwclear Prydain Fawr yn ystod 2018/19. Yn yr [adroddiad](#) cyntaf o'i fath, mae'r arolwg yn darparu barn annibynnol, awdurdodol ar berfformiad diogelwch, diogeledd a mesurau diogelwch ar draws y diwydiant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r adroddiad i'w weld trwy dudalen hafan ein gwefan [www.onr.org.uk](http://www.onr.org.uk)

Trwy gydol Hydref fel gynhaliom [Genhadaeth Gwasanaeth Adolygu Rheoleiddio Integredig](#) ble bu tîm o 18 o arbenigwyr annibynnol o bob cwr o'r byd yn craffu ar reoleiddio niwclear a diogelwch ymbelydrol ar draws 15 o gyrff rheoleiddio gwahanol. Disgwylir yr adroddiad terfynol yn Chwefror/Mawrth 2020.

Ynghyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) rydym wedi cyhoeddi [canllaw Asesiad Cynllunio Cyffredinol \(GDA\) newydd](#) ar gyfer Pleidiau sy'n Ymgeisio. Mae'n adlewyrchu'r newid a fu yn y diwydiant niwclear yn y ddegawd ers cyflwyno'r GDA, yn arbennig y Cytundeb Sector Niwclear a'r potensial ar gyfer cynlluniau Adweithyddion Modiwlaid Bach (SMR) i fod yn rhan o'r GDA yn y dyfodol. Mae'r canllaw newydd hefyd yn cynnwys gwersi a ddysgwyd o'r GDAs blaenorol.

Ynghyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd, rydym hefyd wedi cyhoeddi [adroddiad blynyddol ar y cyd](#) ar ein craffu o waith Radioactive Waste Management (RWM) i ddatblygu gwarediad daearegol. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ein gwaith o ran gwaredu daearegol gwastraff ymbelydrol.

Rydym wedi cwblhau'r [diddymiad trwydded Safle Trwyddedig Niwclear Caerdydd](#) yn swyddogol yng Nghymru, ac felly'n dileu trwydded y safle. Mae hyn yn dilyn nifer o flynyddoedd o ddatgomisiynu safle niwclear a gwaith i lanhau'r safle a dyma'r tro cyntaf i'r ONR ddad-drwyddedu safle'n llwyr, er bod nifer o safleoedd wedi eu dad-drwyddedu gan sefydliad rhagflaenol yr ONR, yr Arolygiaeth Safleoedd Niwclear.

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Ym mis Tachwedd, cynhaliom ein hail Fforwm Cyrff Anllywodraethol y flwyddyn ac roedd yn bleser croesawu 18 o fynychwyr cyrff anllywodraethol o 14 sefydliad gwahanol. Roedd eitemau'r agenda yn cynnwys ein gwaith yn Sellafield, heneiddio rheolaeth adweithyddion a'n perthynas gyda'r Rheolydd Diogelwch Niwclear Amddiffyn. Mae cyflwyniadau a chofnodion o'n holl [gyfarfodydd y Fforwm Cyrff Anllywodraethol](#) ar gael ar ein gwefan. Os ydych chi'n cynrychioli corff anllywodraethol ac yr hoffech chi gymryd rhan gyda'n Fforwm Cyrff Anllywodraethol, cysylltwch â'n tîm Cyfathrebu ([contact@onr.gov.uk](mailto:contact@onr.gov.uk)) am ragor o fanylion.

I gael y newyddion a diweddariadau diweddaraf gan ONR, ewch i'r wefan a chofrestrwch ar gyfer ein e-fwletin (<http://www.onr.org.uk/ebulletin/index.htm>).

## 6 CYSYLLTIADAU

Y Swyddfa dros Reoli Niwclear  
Redgrave Court  
Merton Road  
Bootle  
Glannau Mersi  
L20 7HS  
gwefan: [www.onr.org.uk](http://www.onr.org.uk)  
e-bost: [contact@onr.gsi.gov.uk](mailto:contact@onr.gsi.gov.uk)

Cyhoeddir y ddogfen hon gan y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR). Am ragor o wybodaeth am yr ONR, neu i roi adroddiad am anghysondebau neu wallau yn y cyhoeddiad hwn, ewch i <http://www.onr.org.uk/feedback.htm>.

© Y Swyddfa dros Reoli Niwclear, 2020

Os ydych yn dymuno aildefnyddio'r wybodaeth hon, ewch i [www.onr.org.uk/copyright.htm](http://www.onr.org.uk/copyright.htm) am fanylion. Cyhoeddwyd 01/20

*Ar gyfer dogfennau cyhoeddedig, y copi electronig ar wefan yr ONR yw'r fersiwn fwyaf cyfredol sydd ar gael i'r cyhoedd ac mae ei gopïo neu ei argraffu yn gwneud y ddogfen hon yn un na ellir ei rheoli.*